Green GEN Cymru
Hodge House
Guildhall Place
Cardiff CF10 1DY

[redacted]

greengencymru.com

ATODIAD – CYFLAWNI CYNLLUN 100 DIWRNOD Y LLYWODRAETH

Mae'r atodiad yma yn darparu cyd-destun ychwanegol ar sut y gall prosiectau Green GEN Cymru a'n dull ehangach cefnogi y Rhaglen Lywodraethu, yn enwedig mewn perthynas â ddatblygu system ynni a chyflawni seilwaith. Mae'n nodi ein safbwynt ar prif gyfyngiadau'r system, yr heriau cyflawni, a'r gofynion buddsoddi a fydd yn penderfynnu gallu Cymru i gyrraedd ei huchelgeisiau ynni adnewyddadwy, ynghyd ag ystyriaethau ymarferol ar sut y gall amcanion polisi cael eu cyflawni. Gobeithiwn fod y deunydd yn ddefnyddiol wrth lywio datblygiad Strategaeth Ynni Genedlaethol a pholisïau ehangach.

Polisi: "Gwahardd ar unwaith y defnydd o bolion dellt dur mawr ar gyfer llinellau 11-132 kV newydd yng Nghymru, gyda rhagdybiaeth glir o blaid tan-ddaearu a dewisiadau uwchben yn cael eu caniatáu dim ond lle mae gosod drwy bolion pren isel neu seilwaith cyfatebol, llai ymwthiol"

Rydym yn nodi'r cyfeiriad polisi mewn perthynas â dyluniad llinellau uwchben dur a'r safonau seilwaith cysylltiedig. Fel y cyfeirir ato ym mhrif gorff ein llythyr, rydym wedi amlinellu ein hystyriaethau cychwynnol ynghylch sut y gallai hyn ryngweithio â dyluniad y prosiect, costau, cyflawnadwyedd a chanlyniadau amgylcheddol. Edrychwn ymlaen at drafod hyn yn fanylach mewn cyfarfod sydd i ddod, gan gynnwys sut y gall dewisiadau dylunio sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng effaith weledol, gwydnwch peirianyddol, effeithlonrwydd system a chynaladwyedd hirdymor.

Polisi: "Fel blaenoriaeth, byddwn yn datblygu Strategaeth Ynni Genedlaethol, gan gynnwys anghenion ynni presennol a dyfodol Cymru a gosod cynllun clir, hirdymor ar gyfer y seilwaith sydd ei angen i'w diwallu. Bydd hyn yn darparu mwy o sicrwydd i ddatblygwyr a chymunedau fel ei gilydd, yn nodi lle mae angen seilwaith newydd, ac yn sicrhau bod Cymru'n manteisio i'r eithaf ar dechnolegau gwyrdd sy'n datblygu, gan gynnwys hydrogen gwyrdd":

Rydym yn cefnogi'r ymrwymiad i gyhoeddi Strategaeth Ynni Genedlaethol gynhwysfawr o fewn 100 diwrnod cyntaf eich Llywodraeth newydd. Mae hyn yn cynrychioli cyfle pwysig i osod fframwaith cydlynol a hirdymor ar gyfer system ynni Cymru. Er mwyn bod yn gredadwy ac yn fuddsoddadwy, rhaid i'r strategaeth fod wedi'i seilio ar ddealltwriaeth glir o gyfyngiadau'r system, llwybrau cyflawni, a realiti seilwaith. Byddem yn croesawu'r cyfle i gyfrannu tystiolaeth ynghylch rôl ganolog capasiti'r grid a chysylltiadau amserol fel y ffactor hanfodol sy'n penderfynu a ellir cyflawni targedau cynhyrchu, gan gynnwys y cyfyngiadau presennol yn y ciw cysylltu, tagfeydd daearyddol yng nghapasiti'r rhwydwaith, a'r heriau dilyniannu sy'n effeithio ar pryd y gellir cyflawni prosiectau'n realistig. Bydd darparu eglurder ar sut y bydd y cyfyngiadau hyn yn cael sylw, gan gynnwys drwy ddiwygio cysylltiadau ac atgyfnerthu'r rhwydwaith wedi'i dargedu, yn hanfodol i drosi uchelgais yn gyflawniad.

Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig pwysleisio bod gweithgarwch cyflawni eisoes ar y gweill. Rydym wrthi'n gweithio gyda Gweithredwr y System Ynni Genedlaethol a

rhanddeiliaid ehangach y rhwydwaith i symud ein prosiectau ymlaen ar gyflymder o fewn y fframwaith presennol, ac mae ein rhaglen fuddsoddi eisoes wedi ymrwymo i amserlenni cyflawni na allant fod yn ddibynnol ar gwblhau prosesau diwygio yn y dyfodol. Bydd sicrhau bod gweithgarwch strategaeth a diwygio yn cefnogi, yn hytrach nag yn oedi, cyflawni tymor byr felly yn hanfodol i gynnal momentwm a hyder buddsoddwyr.

Mae dadansoddiad diweddar yn amlygu maint yr her sy'n wynebu system ynni Cymru. Yn hanesyddol, mae Cymru wedi bod yn allforiwr net o drydan, gyda'r allforion net yn fwy na 21 TWh yn 2016. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa hon wedi erydu'n raddol, gyda'r allforion yn gostwng bron i sero erbyn 2024 a Chymru'n dod yn fewnforiwr net o drydan am y tro cyntaf yn 2025.

Ar yr un pryd, mae cynhyrchiant trydan cyffredinol yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol, gyda'r allbwn yn disgyn bron i 50% o'i uchafbwynt yn 2016. Mae hyn yn adlewyrchu cau cyflym capasiti glo a niwclear, nad yw eto wedi'i gyfateb gan gyflymder defnyddio ynni adnewyddadwy. O ganlyniad, mae nwy bellach yn cyfrif am tua 58% o gynhyrchiant trydan Cymru - cyfran uwch nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU - gan gynyddu'r cysylltiad â marchnadoedd ynni rhyngwladol anwadal a'r siociau pris cysylltiedig.

Er bod cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru wedi tyfu'n sylweddol dros y tymor hir, gan ddiwallu tua thraean o'r galw am drydan erbyn hyn, mae'r cynnydd wedi arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Heb gyflymiad sylweddol yn y defnydd, mae perygl na fydd cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn cadw i fyny â'r galw cynyddol, yn enwedig gan y disgwylir i ddefnydd trydan gynyddu'n sylweddol drwy drydaneiddio gwres, trafnidiaeth a diwydiant.

Mae ein dadansoddiad yn dangos bod cyfyngiadau rhwydwaith a chyfyngiadau gweithredol eisoes yn ychwanegu costau sylweddol at y system drydan, gyda thaliadau cyfyngu yn cyrraedd cannoedd o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn. Mae'r costau hyn yn codi pan na ellir defnyddio cynhyrchu ynni adnewyddadwy cost isel oherwydd capasiti rhwydwaith annigonol, gan olygu bod angen defnyddio cynhyrchiant drutach yn lle hynny.

Mae tystiolaeth yn dangos pan na all cynhyrchu ynni adnewyddadwy cost isel gysylltu â'r grid neu pan gaiff ei gyfyngu oherwydd cyfyngiadau rhwydwaith, fod rhaid i'r system ddibynnu'n fwy ar gynhyrchiant cost uwch, yn enwedig nwy. Mae hyn yn cynyddu anwadalrwydd prisiau cyfanwerthu ac yn gwneud defnyddwyr yn fwy agored i siociau prisiau ynni rhyngwladol. Felly, mae mynd i'r afael â chyfyngiadau'r grid a chyflymu cysylltiadau yn un o'r ffyrdd mwyaf uniongyrchol o leihau costau trydan a gwella diogelwch ynni yn y tymor hir.

Bydd hefyd yn hanfodol bod y strategaeth yn mabwysiadu dull gwirioneddol system gyfan, gan integreiddio cynllunio cynhyrchu, storio, galw a seilwaith rhwydwaith yn hytrach na thrin yr elfennau hyn ar wahân. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y galw cynyddol am drydan oherwydd trydaneiddio gwres, trafnidiaeth a diwydiant, a fydd yn cynyddu'r pwysau ar gapasiti'r rhwydwaith dros y degawd nesaf. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen am fuddsoddiad cydgysylltiedig a rhagweledol yn y rhwydwaith sy'n rhagweld twf yn y galw yn hytrach nag ymateb iddo. Fodd bynnag, er bod cydlynu ac aliniad strategol yn bwysig, mae hefyd yn hanfodol nad yw cyflawni yn

cael ei atal wrth aros am gwblhau prosesau cynllunio neu ddiwygio ehangach y system. Mae cynnydd ar ddatblygu prosiectau a darparu seilwaith eisoes yn ofynnol o fewn y fframweithiau polisi a rheoleiddio presennol, a bydd cynnal momentwm yn hanfodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio a buddsoddi tymor byr.

Polisi: "Byddwn yn sicrhau bod rheoliadau cynllunio yn hwyluso'r trawsnewidiad gwyrdd yn well, gan gynnwys drwy amserlenni caniatáu cadarnach ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer pympiau gwres, solar domestig ac ynni adnewyddadwy ar raddfa fach arall":

Mae gan Gymru bellach fframwaith cydsynio modern ac unedig drwy Ddeddf Seilwaith (Cymru), gyda'r drefn Gorchymyn Caniatâd Seilwaith (ICO) yn darparu proses glir o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer penderfynu ar brosiectau seilwaith arwyddocaol. Mae'r Ddeddf yn sefydlu camau diffiniedig, amserlenni statudol, ac un penderfynwr sef Gweinidogion Cymru. O ran gweithdrefn felly, mae'r system eisoes yn gallu cefnogi penderfyniadau amserol a rhagweladwy ar gyfer seilwaith ynni a'r grid o bwys – ac felly hwyluso'r trawsnewid gwyrdd.

Nid oes angen diwygio strwythurol pellach ar y broses gydsynio ei hun. Dylai'r flaenoriaeth fod ar weithredu a rhedeg y drefn fel y bwriadwyd, yn hytrach nag ailystyried ei dyluniad. Byddai cyflwyno newidiadau gweithdrefnol ychwanegol ar hyn o bryd yn peri risg o darfu diangen, ansicrwydd i brosiectau byw, a cholli momentwm ar adeg hollbwysig ar gyfer darparu seilwaith.

Yn ymarferol, ni fydd y ffactor allweddol wrth sicrhau amserlenni cydsynio mwy cadarn yn newid deddfwriaethol pellach, ond yn hytrach adnoddau effeithiol a gweithredu'r drefn yn effeithlon. Mae'r broses ICO yn dibynnu ar allu Llywodraeth Cymru, y swyddogaeth archwilio, a'r ymgyngoreion statudol i ymgysylltu'n brydlon ac yn gyson drwy gydol y cyfnod cyn gwneud cais, yr archwiliad, a'r broses benderfynu. Mae sicrhau bod y cyrff hyn wedi'u hadnoddau'n ddigonol felly yn hanfodol os yw'r amserlenni statudol a nodir yn y Ddeddf i arwain at ganlyniadau darparu gwirioneddol.

Yn ogystal â phroses a gweithdrefn, mae'r cyd-destun polisi y gwneir penderfyniadau ICO ynddo yn hollbwysig er mwyn sicrhau cyflymder a sicrwydd. Mae profiad yn dangos yn gyson fod archwilio a phenderfynu yn fwy effeithlon lle mae polisi cenedlaethol yn glir, yn gyfredol ac yn eglur ynghylch angen, egwyddor a blaenoriaethau gofodol.

Mae cyfle clir i adeiladu ar Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 er mwyn darparu'r eglurder hwn, yn enwedig mewn perthynas â gofynion gofodol a strategol seilwaith ynni a'r grid trydan. Byddai fframwaith polisi cenedlaethol cryfach yn lleihau ansicrwydd yn ystod yr archwiliad, yn culhau cwmpas y ddadl, ac yn cefnogi ystyriaeth fwy ffocysedig a chymesur o effeithiau.

Yn ogystal, mae cyfle i wneud defnydd cynnar a rhagweithiol o ddarpariaethau Deddf Seilwaith (Cymru) i ddatblygu a mabwysiadu datganiadau polisi cenedlaethol neu offerynnau polisi cyfatebol ar gyfer seilwaith. Byddai gwneud hynny yn caniatáu cryfhau eglurder polisi yn gyflym, heb aros am adolygiad llawn o'r fframwaith datblygu cenedlaethol. Byddai cryfhau safbwynt y Llywodraeth ar yr angen am seilwaith rhwydwaith newydd yng Nghymru mewn datganiad polisi cenedlaethol yn darparu signalau cliriach i ddatblygwyr, awdurdodau cynllunio a chymunedau ynghylch ble mae

angen mwyaf am fuddsoddiad strategol, ac yn cefnogi darparu mwy cydgysylltiedig ar draws asedau cynhyrchu a rhwydwaith.

Polisi: "Datblygu a chynnal dealltwriaeth glir o anghenion esblygol economi Cymru, gan gefnogi busnesau Cymreig i ymateb i heriau a chyfleoedd newydd - gan gynnwys mewn sectorau twf fel ynni adnewyddadwy a thechnoleg werdd":

Rydym hefyd yn nodi'r bwriad i osod targedau cynhyrchu penodol yn ôl technoleg, gan gynnwys gwynt, solar, llanw, a thechnolegau sy'n datblygu fel hydrogen. Rydym yn cefnogi gwerth darparu cyfeiriad clir, ond byddem yn pwysleisio bod rhaid i dargedau sy'n benodol i dechnoleg fod wedi'u seilio ar gyfraddau defnyddio realistig ac wedi'u halinio â chapasiti'r rhwydwaith a hyblygrwydd y system. Heb yr aliniad hwn, mae perygl o or-uchelgais heb fecanweithiau cyflawni, yn enwedig lle mae atgyfnerthu'r grid ac amserlenni caniatáu yn dod yn gyfyngiadau rhwymol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried aeddfedrwydd gwahanol y technolegau a'u hamserlenni cyflawni, gyda thechnolegau sefydledig fel gwynt ar y tir yn gallu cael eu defnyddio'n gyflym, tra bydd eraill angen datblygiad tymor hwy a seilwaith ategol. Bydd sicrhau bod targedau'n cael eu cefnogi gan gynllunio gofodol clir a strategaethau buddsoddi yn y grid yn hanfodol er mwyn osgoi datgysylltiad rhwng uchelgais a chyflawnadwyedd.

Mae cymariaethau cost yn dangos yn gyson fod technolegau fel gwynt ar y tir a solar yn cynnig y llwybrau cost isaf ar gyfer cynhyrchu trydan newydd. Fodd bynnag, dim ond os gall prosiectau gysylltu a gweithredu'n effeithlon y gwireddir y manteision cost hyn. Heb gapasiti grid digonol a chynllunio seilwaith cydgysylltiedig, mae perygl y bydd yr opsiynau cynhyrchu cost isaf yn cael eu gohirio, gan arwain at gostau system cyffredinol uwch er gwaethaf potensial cryf adnoddau adnewyddadwy.

Polisi: "Bydd Cytundeb Sector Ynni Adnewyddadwy newydd yn cydgysylltu gweithredu rhwng y llywodraeth, y diwydiant ynni adnewyddadwy, addysg bellach ac uwch, cymunedau ac undebau llafur, tra'n darparu gofynion cynllunio cliriach ac amserlenni caniatáu cadarn a rhagweladwy ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy":

Rydym yn cefnogi'n gryf ddatblygiad Cytundeb Sector Ynni Adnewyddadwy fel rhan o'r strategaeth ehangach, gan adeiladu ar y cytundeb a sefydlwyd gyda Llywodraeth flaenorol Cymru a'r diwydiant, sydd eisoes yn darparu sylfaen bwysig ar gyfer cydweithio strwythuredig rhwng llywodraeth, diwydiant a chymunedau. Rydym yn gweld gwerth gwirioneddol mewn cadw egwyddorion craidd y dull hwnnw, yn enwedig ei bwyslais ar weithio mewn partneriaeth, datblygu sgiliau, twf y gadwyn gyflenwi, a chynllunio sector cydgysylltiedig, sydd oll yn parhau'n hanfodol i gyflymu uchelgeisiau ynni adnewyddadwy Cymru. Bydd cynnal parhad gyda'r fframwaith presennol hwn yn bwysig i gynnal hyder buddsoddwyr ac osgoi tarfu ar prosiectau sydd eisoes yn cael eu datblygu. Bydd y parhad hwn yn bwysig o ystyried yr amserlenni datblygu hir sy'n gysylltiedig â seilwaith ynni a'r angen i gynnal momentwm ar draws prosiectau presennol.

Mae ein dadansoddiad o gost trydan yn atgyfnerthu'r farn y dylid ystyried seilwaith rhwydwaith yn elfen graidd o bolisi fforddiadwyedd. Er bod cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleihau prisiau cyfanwerthu, gall integreiddio system aneffeithlon arwain at gostau rhwydwaith a chydbwyso cynyddol sy'n gwrthbwyso'r arbedion hyn. Byddai cytundeb sector cryfach sy'n cysylltu defnyddio cynhyrchu yn benodol â buddsoddi mewn rhwydwaith ac effeithlonrwydd system yn helpu i sicrhau bod manteision cost ynni adnewyddadwy yn cael eu gwireddu'n llawn i ddefnyddwyr.

Mae cyfle i adeiladu ar y fframwaith presennol drwy sicrhau ei fod wedi'i alinio'n agos â realiti cyflawni a chyfyngiadau'r system. Yn benodol, bydd sicrhau bod seilwaith y grid wedi'i integreiddio'n llawn i gynllunio ynni ac economaidd yn hanfodol i gyflawni'n llwyddiannus. Heb gapasiti rhwydwaith digonol a chysylltiadau amserol, mae perygl sylweddol y bydd prosiectau cynhyrchu'n cael eu gohirio neu'n methu symud ymlaen, waeth beth fo uchelgais polisi. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd gwreiddio cynllunio seilwaith grid wrth galon polisi economaidd ac ynni, yn hytrach na'i drin fel ystyriaeth eilaidd.

Mae hefyd gyfle i gryfhau'r ffocws ar greu brosiectau wirioneddol gydgysylltiedig a buddsoddadwy, wedi'i seilio ar ddilyniannu cyflawni cliriach, integreiddio cryfach gyda phrosesau cynllunio a chaniatáu, ac aliniad mwy pendant rhwng uchelgais cynhyrchu a chapasiti'r rhwydwaith. Byddai rhestr o brosiectau gliriach wedi'i diffinio'n ofodol hefyd yn helpu i leihau effeithiau amgylcheddol a chynllunio cronnol drwy alluogi datblygiad mwy cydgysylltiedig. Byddai rhestr fwy eglur a dilyniannol hefyd yn cefnogi buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi, cynllunio'r gweithlu, a dyrannu cyfalaf yn fwy effeithlon ar draws y sector. Byddai hefyd yn cefnogi ymgysylltu mwy effeithiol â'r gadwyn gyflenwi ac yn helpu i fynd i'r afael â chyfyngiadau sy'n dod i'r amlwg o ran gweithlu a sgiliau.

Rydym yn falch o fod wedi'i leoli yng Nghymru, ac yn cyflogi cydweithwyr o bob rhan o'r wlad, ac rydym yn dod â dealltwriaeth gref o'r cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y mae'n rhaid cyflawni'r trawsnewid hwn ynddo. Yn y cyd-destun hwnnw, byddem yn croesawu'r cyfle i weithredu fel partner cyflawni o fewn y fframwaith diwygiedig hwn, gan gefnogi cydgysylltu systemau, mewnbwn technegol, ac aliniad traws-sector. Wrth wneud hynny, credwn y gallwn helpu i adeiladu ar bensaernïaeth bresennol y cytundeb sector tra'n cryfhau ei ffocws ar gyflawni ymarferol a sicrhau ei fod wedi'i alinio'n llawn â gofynion seilwaith trawsnewidiad ynni Cymru. Gallai hyn gynnwys darparu data ar rhestr o prosiectau a galw am gysylltiadau, cefnogi cynllunio gofodol, a helpu i gydgysylltu cyflawni rhwng datblygwyr, cymunedau a gweithredwyr systemau. Gallai hyn hefyd gefnogi gwell tryloywder ynghylch rhestr prosiectau a gofynion seilwaith, gan helpu i adeiladu hyder cymunedol a thrwydded gymdeithasol.

Rydym yn nodi eich uchelgeisiau mewn perthynas â rheoliadau cynllunio a chynllunio gofodol. O safbwynt cyflawni, mae rhagweladwyedd a chysondeb yn hollbwysig. Mae amserlenni caniatáu clir a gorfodadwy ar gyfer seilwaith cynhyrchu a rhwydwaith yn helpu i leihau ansicrwydd a datgloi buddsoddiad, ar yr amod eu bod yn cael eu cefnogi gan adnoddau a chydgysylltu digonol ar draws awdurdodau cynllunio.

Yn y cyd-destun hwn, mae ein ffocws ar sicrhau bod y drefn newydd Gorchymyn Caniatáu Seilwaith (ICO) yn gweithredu mewn ffordd sy'n darparu sicrwydd gwirioneddol ar gyfer cyflawni seilwaith, gyda disgwyliad clir o wneud penderfyniadau amserol a lleiafswm o gyfle ar gyfer oedi y gellir ei osgoi. Ystyrir yn gyffredinol bod y drefn hon yn "addas i'r diben" ar gyfer ceisiadau seilwaith, er y bernir bod gwerth mewn newidiadau wedi'i dargedu i gryfhau sicrwydd cyflawni ymhellach - er enghraifft, mwy o gysondeb mewn amserlenni penderfynu wedi'u halinio â modelau sefydledig fel trefniadau Gorchmynion Caniatâd Datblygu (DCO), a rheolaethau tynnach ar gyfleoedd ar gyfer gohirio diangen o fewn y broses ganiatáu.

Mae lleihau amrywioldeb mewn amserlenni gwneud penderfyniadau a sicrhau cymhwysiad cyson ar draws rhanbarthau yn arbennig o bwysig er mwyn osgoi tagfeydd a chynnal momentwm cyflawni.

Cyfle allweddol o fewn fframwaith newydd Deddf Caniatáu Seilwaith (Cymru) fydd datblygu a mabwysiadu Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSs) clir ar gyfer seilwaith ynni. Byddai'r rhain yn darparu mecanwaith pwysig i drosi'r "achos angen" clir ar gyfer seilwaith grid ac ynni adnewyddadwy yn bolisi cynllunio ffurfiol, gan wella cysondeb a lleihau amwysedd wrth wneud penderfyniadau mewn ffordd debyg i rôl NPSs yn Lloegr. Yn ein barn ni, byddai gwreiddio'r eglurder hwn yn gynnar yn gam cymharol syml ond effaith uchel i wella sicrwydd i fuddsoddwyr ac awdurdodau cynllunio fel ei gilydd, ac i sicrhau bod seilwaith strategol yn cael ei gydnabod yn gyson fel rhywbeth sydd er budd cenedlaethol.

Bydd sicrhau bod cynllunio wedi'i alinio ag amserlenni cyflawni seilwaith, ac nad yw'n cyflwyno haenau ychwanegol o gymhlethdod, yn hanfodol i'w lwyddiant. Mae oedi mewn prosesau cynllunio a chaniatáu yn cael effaith uniongyrchol ar gostau trydan. Pan fydd prosiectau seilwaith rhwydwaith ac ynni adnewyddadwy cost isel yn cael eu gohirio, mae'r system yn parhau i ddibynnu ar gynhyrchiant drutach am gyfnod hirach, gan gynyddu costau cronnol i ddefnyddwyr. Felly, gall mwy o ragweladwyedd a chyflymder mewn penderfyniadau cynllunio chwarae rhan bwysig wrth leihau costau ynni hirdymor, yn ogystal â gwella hyder buddsoddwyr.

Polisi: "Cronfa Gyfoeth Cymru, gan gipio cyfran deg o elw o ynni adnewyddadwy Cymru i fuddsoddi mewn prosiectau dan arweiniad cymunedol mewn meysydd fel tai ac ynni":

Rydym hefyd yn nodi'r bwriad i ddatblygu Cronfa Gyfoeth Cymru a fydd yn cipio gwerth o ynni adnewyddadwy i'w ailfuddsoddi mewn cymunedau. Rydym yn cefnogi'r egwyddor o sicrhau bod Cymru'n cadw mwy o werth o'i hadnoddau naturiol. Mae prosiectau ynni adnewyddadwy a seilwaith grid fel arfer yn ddwys o ran cyfalaf ac yn cynnwys cyfnodau ad-dalu hir, a gall baich cost ychwanegol neu ansicrwydd effeithio'n uniongyrchol ar benderfyniadau buddsoddi a hyfywedd prosiectau. Bydd fframweithiau clir, cyson a chymesur yn hanfodol i sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn gyrchfan ddeniadol ar gyfer buddsoddiad ynni hirdymor.

Bydd cysondeb â pholisi ehangach y DU ac osgoi gofynion sy'n gorgyffwrdd neu'n ddyblygol hefyd yn bwysig i gynnal cystadleurwydd. Bydd hefyd yn bwysig ystyried sut mae'r mecanwaith hwn yn rhyngweithio â gofynion polisi eraill, gan gynnwys modelau budd cymunedol a pherchnogaeth gymunedol, er mwyn osgoi effeithiau cronnol anfwriadol ar hyfywedd prosiectau.

Bydd hefyd yn bwysig cydnabod nad yw fforddiadwyedd cyffredinol trydan yn cael ei bennu gan gostau cynhyrchu yn unig, ond gan gyfanswm costau'r system, gan gynnwys buddsoddiad mewn rhwydwaith a gweithrediad y system. Mae polisïau sy'n cynyddu costau ymlaen llaw neu'n cyflwyno ansicrwydd i gyflawni seilwaith mewn perygl o gynyddu cost cyfalaf ac, yn y pen draw, gost trydan i ddefnyddwyr.

Polisi: "Sefydlu Bwrdd Trawsnewid Cyfiawn i arwain strategaeth sero net – gan ddod ag arbenigwyr perthnasol ynghyd a sicrhau bod gan randdeiliaid allweddol rôl ystyrlon wrth lunio polisi":

Yn olaf, hoffem dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod strwythurau llywodraethu trawsbynciol, gan gynnwys unrhyw Fwrdd Trawsnewid Cyfiawn neu ddyletswyddau cynaliadwyedd cryfach, yn cynnal ffocws cryf ar ganlyniadau cyflawni yn ogystal ag uchelgais polisi. Bydd dull cydgysylltiedig ar draws portffolios y llywodraeth yn hanfodol er

mwyn osgoi darnio a sicrhau bod amcanion ynni, seilwaith, cynllunio a datblygu economaidd wedi'u halinio'n ymarferol. Bydd yn bwysig osgoi creu haenau ychwanegol o broses neu gymeradwyo a allai arafu cyflawni prosiectau yn anfwriadol. Bydd atebolrwydd clir a phrosesau gwneud penderfyniadau symlach yn hanfodol i sicrhau bod y strwythurau hyn yn cefnogi, yn hytrach na rhwystro, cyflawni.

Meysydd polisi eraill i'w nodi:

Yn ogystal â'r pwyntiau uchod, mae sawl maes polisi lle byddem yn parhau i ymgysylltu drwy ein trafodaethau gyda'ch llywodraeth a thrwy fforymau diwydiant perthnasol a chyrff cynrychiadol. Mae'r rhain yn cynnwys dyluniad ymarferol a gallu i ehangu modelau ynni cymunedol a pherchnogaeth leol, yn enwedig mewn perthynas â mynediad at y grid, hyfywedd prosiectau, ac integreiddio â chynllunio system ehangach. Yn benodol, bydd sicrhau bod gofynion perchnogaeth gymunedol neu fudd cymunedol yn parhau'n hyblyg ac nad ydynt yn creu rhwystrau anfwriadol i ariannu neu gyflawni prosiectau yn hanfodol. Bydd dull hyblyg sy'n caniatáu ystod o fodelau cyflawni yn helpu i sicrhau bod buddion cymunedol yn cael eu gwireddu heb arafu'r defnydd.

Rydym hefyd yn rhagweld ymgysylltiad parhaus ar ddatblygu fframweithiau adfer hinsawdd a natur, gan gynnwys sut mae strwythurau llywodraethu amgylcheddol yn cael eu gweithredu'n ymarferol a sut mae'r rhain yn rhyngweithio ag amserlenni caniatáu a chyflawni seilwaith. Bydd angen dull cytbwys i sicrhau bod uchelgais amgylcheddol yn cael ei gyflawni ochr yn ochr â, yn hytrach nag ar draul, darparu seilwaith mewn modd amserol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod fframweithiau amgylcheddol a chynllunio yn gymesur, wedi'u diffinio'n glir, ac wedi'u halinio ag amserlenni cyflawni.

I grynhoi, credwn fod gan Gymru gyfle sylweddol i gyflymu ei thrawsnewidiad i system ynni ddiogel, fforddiadwy a charbon isel, ond bydd gwneud hynny yn gofyn am ffocws clir a pharhaus ar gyflawnadwyedd. Mae hyn yn cynnwys alinio uchelgais polisi â chyflawni seilwaith, sicrhau buddsoddiad amserol mewn capasiti grid, a chynnal momentwm ar brosiectau sydd eisoes yn cael eu datblygu. Mae Green GEN Cymru yn barod i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach i gefnogi'r ymdrech hon - gan symud prosiectau ymlaen ar gyflymder, cyfrannu tystiolaeth ac arbenigedd technegol, a helpu i sicrhau bod uchelgais strategol yn cael ei throsi'n ganlyniadau ymarferol ar lawr gwlad. Byddem yn croesawu ymgysylltiad parhaus wrth i'r Rhaglen Lywodraethu gael ei gweithredu ac edrychwn ymlaen at drafod y materion hyn ymhellach.